




CIWB

# Edrych 'nôl



# Eleni ...

Mae Sam yn edrych 'nôl dros y flwyddyn ...

30 Mawrth, 2016

## Medi:

Dechreuais i chwarae yn y band yn yr ysgol achos dw i'n mwynhau chwarae'r drymiau (ac mae Jo yn canu'r ffliwt! Dw i'n hoffi Jo!)

## Hydref:

Aeth Matt, Paul, Bex, Assha a fi i gig yn y parc ond roedd hi'n ddiflas iawn achos roedd hi'n bwrw glaw.

## Tachwedd:

Yn yr ysgol, helpais i i godi arian at Blant mewn Angen. Gwisgais i wisg ffansi a rhedais i o gwmpas y cae.

Es i i weld Rali GB gyda Jordan.



### Rhagfyr:

Es i i barti Nadolig yn yr ysgol ar Ragfyr 18. Roedd e'n hwyl achos roedd y bwyd yn flasus iawn ac roedd y gerddoriaeth yn wych. Dawnsiais i gyda Jo – noson grêt!

### Ionawr:

Ces i gerdyn Santes Dwynwen oddi wrth rywun yn y dosbarth. Dw i ddim yn gwybod pwy! (Jo efallai? Gobeithio!)

### Chwefror:

Fy mhen-blwydd.

Ces i syrpreis gwych – tocynnau i fynd i'r O2 yn Llundain gyda Dad i weld y *nitro circus*.

Gwelais i bobl yn gwneud styntiau ar eu beiciau. Roedden nhw'n anhygoel!



## Mawrth:

Dydd Gŵyl Dewi – bwyton ni fwyd o Gymru yn y wers Gymraeg. Dydd San Padrig – gwisgon ni ddillad gwyrdd i'r ysgol. Roedd y Pennaeth yn edrych yn cwl iawn mewn sbectol haul!



### Ebrill:

Bwytais i lawer o wyau Pasg - gormod o wyau Pasg!

### Mai:

Es i i'r penwythnos Fictoraidd yn Llandudno. Roedd llawer o bobl yn gwisgo hen ddillad ac roedd hen ffair yn y dref. Roedd e'n hwyl.

### Mehefin:

Es i i Eisteddfod yr Urdd achos roeddwn i'n chwarae'r drymiau yn y band. Roedd y band yn ardderchog a bod yn onest ond enillon ni ddim. Dim ots - y flwyddyn nesa efallai ...

## Geirfa

### Geirfa

eleni	this year
drymiau	drums
diflas	miserable
codi	to raise
Plant mewn Angen	Children in Need
cerddoriaeth	music
oddi wrth	from
rhywun	someone
efallai	perhaps
gobeithio	hope so
tocynnau	tickets
anhygoel	incredible
pennaeth	head teacher
gormod o	too many
Dim ots!	Never mind!
y flwyddyn nesa	next year

### ➊ Beth ydy'r geiriau Saesneg?

gwisg ffansi

styntiau

sbectol haul

# Edrych 'nôl



## Edrych 'nôl

Blasais i grempog,  
cawl poeth a chacennau cri  
ac wyau siocled.

Aroglais i'r môr,  
byrgers ar y barbeciw  
a blodau hyfryd.

Clywais i chwerthin,  
BANG! ... CRAC! ... CRIC! – Tân gwylt lliwgar  
a fflamau coelcerth.

Teimlais i'r eira,  
y rhew caled dan fy nhraed  
a chot gynnes braf.

**Non ap Emlyn**

### **Y synhwyrau:**

The senses:

blasu      *to taste*

arogli      *to smell*

clywed      *to hear*

teimlo      *to feel*

Mae un ar goll – pa un?

## Geirfa

### **Geirfa**

tymor, tymhorau      season, seasons

crempog      pancake

cacennau cri = pice ar y maen      Welsh cakes

chwerthin      to laugh

tân gwylt      fireworks

lliwgar      colourful

coelcerth      bonfire

rhew      ice

caled      hard

(o) dan      under, beneath

fy nhraed      my feet

synhwyrau      senses

ar goll      missing

# Gêm newydd



Ydych chi'n gwybod beth ydy "geocelcio" – *geocaching* yn Saesneg?

Gêm ydy hi – rydych chi'n defnyddio ap ar y ffôn neu GPS i ffeindio celc – y *cache*.

Beth ydy'r celc? Anrheg fach, fel bathodyn neu bêl neu fodel bach.

Edrychwch - chwilio am y celc yn y goedwig.



Dyma'r celc – o dan y goeden.



Beth sy yn y bocs, tybed?

Mae Jac wedi dechrau geocelcio. Darllenwch y llythyr yma.

01 Mai 2016

Annwyl **Ciwb**,

Dydd Sadwrn, es i allan gyda Chris, fy ffrind, i geocelcio. Roedd o'n gyffrous iawn.

Yn gynta, aeth Chris a fi ar y we i weld ble roedd celc yn yr ardal. Ysgrifennon ni'r cyfesurynnau yn yr ap ar fy ffôn ac yna aethon ni i chwilio am y celc.

Cerddon ni i lawr y stryd ... heibio'r siopau ... heibio'r pwll nofio ... i fyny'r bryn ... ac i'r parc. Roedd hi'n braf iawn – roedd hi'n heulog ac yn gynnes. Aethon ni i mewn i'r parc a dilynon ni'r GPS drwy'r parc at y coed.

Yn sydyn, gwelon ni focs bach arian o dan goeden. Agoron ni'r bocs. Roedd llyfr bach, pensil a dau fathodyn yn y bocs. Ysgrifennais i fy enw i ac enw Rhys yn y llyfr. Gwisgais i un o'r bathodynnau a gwisgodd Chris y bathodyn arall. Rhoais i bêl fach yn y bocs – yn lle'r bathodynnau.

Aethon ni adre ac ysgrifennon ni ar y we am y celc.

Roedd o'n hwyl. Mwynheuais i gerdded i'r parc gyda Chris yn yr haul achos siaradon ni a chwarddon ni. Mwynheuais i chwilio am y celc a mwynheuais i ffeindio'r celc. Roedd o'n gyffrous. Dw i eisiau mynd eto wythnos nesaf achos dw i wrth fy modd yn geocelcio!

Pob hwyl

Jac

Os ydych chi eisiau mynd i geocelcio, ewch i:

<https://www.geocaching.com/play>

Geirfa

### Geirfa

defnyddio	to use
anrheg	present
bathodyn	badge
yn gynta	firstly
cyfesurynnau	co-ordinates
dilyn	to follow
yn lle	instead
chwarddon ni	we laughed

# Heddiw ... a ... ddoe



Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Geirfa

### Geirfa

gogledd	north
chwarel lechi	slate mine
miloedd	thousands
gwifren wib	zipwire
dathlu	to celebrate
fy mhen-blwydd	my birthday
wedyn	afterwards, then
dynion	men
caled	hard
peryglus	dangerous

ar ddiwedd	at the end of
amser maith yn âl	a long time ago

## Trawsgrif

Person	Sgript
Cyflwynnydd:	Cyflym ... cŵl ... cyffrous ... Cyffrous iawn!
Joanne:	Ble ydyn ni? ... Rydyn ni yng Ngogledd Cymru. Rydyn ni mewn <b>hen</b> chwarel lechi ond ... ... heddiw mae Zip World yma.
	Mae <b>miloedd</b> o bobl yn dod i Zip World ... i gael amser da ... yn zipio ar y wifren wib.
Cyflwynnydd:	Ydy, mae'n hwyl ... Beth am siarad gyda Joanne? Aeth hi i Zip World dros y penwythnos. Prynhawn da, Joanne. Sut dach chi?
Joanne:	Da iawn, diolch. A chi?
Cyflwynnydd:	Dw i'n dda iawn, diolch. <b>Pryd</b> aethoch chi i Zip World?
Joanne:	Es i ddydd Sadwrn.
Cyflwynnydd:	<b>Pam</b> aethoch chi?
Joanne:	Es i i Zip World i ddathlu fy mhen-blwydd. Roedd e'n wych.
Cyflwynnydd:	<b>Beth wnaethoch chi?</b>

Joanne: Wel, yn gynta gwisgais i oferôls a helmed.

Yna, es i ar y wifren wib **fach**.

Cyflwynnydd: Wel, wel – gwifren wib fach ... .Beth wnaethoch chi **wedyn**?

Joanne: Es i ar y wifren wib **fawr** wedyn. ... Waw – roedd hi'n ffantastig!

Cyflwynnydd: Beth wnaethoch chi **wedyn**?

Joanne: Aethon ni i weld y chwarel ... Dysgon ni am y chwarel.

Cyflwynnydd: Beth ddysgoch chi?

Joanne: Wel, roedd y dynion yn gweithio'n galed iawn, iawn yn y chwarel lechi.

Roedd y gwaith yn **beryglus** – yn beryglus iawn.

Roedd y gwaith yn **galed** iawn.

Ar ddiwedd y shifft, roedd y dynion yn dod i lawr y mynydd ar y trac.

Roedd y dynion yn gweithio chwe diwrnod yr wythnos.

Cyflwynnydd: Hoffech chi weithio yn y chwareli llechi?

Joanne: Hoffwn i **ddim** gweithio yn y chwareli amser maith yn ôl achos roedd y gwaith yn galed ... ac yn beryglus ... ond ... hoffwn i weithio yno rŵan – yn Zip World ... achos mae'n hwyl.

# Roller derby



Cyfwelydd      **Pwy ydych chi?**

Eira Davies      Catherine Eira Davies ydw i ond “Shedog” ydw i pan dw i’n chwarae *roller derby*.

Cyfwelydd      **Ble ydych chi’n byw?**

Eira Davies      Dw i’n byw yn Ninbych.

Cyfwelydd      **O ble ydych chi’n dod?**

Eira Davies      Dw i’n dod o *Swindon*. Dw i wedi dysgu Cymraeg.

Cyfwelydd      **Beth ydy’ch hobi chi?**

Eira Davies      Dw i’n mwynhau *roller derby*.

Cyfwelydd      **Pryd dechreuoch chi?**

Eira Davies      Dechreuais i yn 2012.

Cyfwelydd      **Pam dechreuoch chi?**

**Eira Davies** Gwelais i ffilm o'r enw *Whip it* a meddyliais i, "Mae *roller derby*n hwyl!"

**Cyfwelydd** **Sut dechreuoch chi?**

**Eira Davies** Chwiliais i am dîm lleol a dechreuais i chwarae i dîm Gogledd Cymru. Dw i wedi chwarae dros Gymru hefyd.

**Cyfwelydd** **Pam ydych chi'n hoffi'r gamp?**

**Eira Davies** Mae'n gyflym, yn dactegol, yn llawn cyffro a hwyl – a dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau hefyd.

### **Roller derby**

Mae *roller derby* yn gêm galed – mae'n galed iawn achos mae pobl yn taro i mewn i chi.

Rydych chi'n gwisgo esgidiau sglefrio a rhaid gwisgo padiau a helmed.

Mae pob gêm yn para 60 munud – dau hanner o 30 munud.

Mae'r timau'n chwarae ar drac hirgrwn.

Mae 5 chwaraewr ym mhob tîm – un *pivot*, tri *blocker* ac un *jammer*.

Rhaid i'r *jammer* sglefrio heibio'r tîm arall i ennill pwyntiau – ond mae'r tim arall yn trio stopio'r *jammer*.

Mae merched a bechgyn yn chwarae *roller derby*.

Mae *roller derby* yn dod yn fwy a mwy poblogaidd rŵan.

Os ydych chi eisiau gweld *roller derby*, ewch i:

<https://www.youtube.com/watch?v=Vj-UHrSHC3E>

### Geirfa

#### **Geirfa**

chwilio am	to look for
lleol	local

camp	sport
llawn cyffro	full of excitement
caled	hard
taro i mewn i	to knock into
esgidiau sglefrio	roller skates
para	to last
hirgrwn	oval
ym mhob	in every
sglefrio	to skate
heibio	past
yn fwy a mwy poblogaidd	more and more popular

## ➊ Beth ydy'r gair yma yn Saesneg?

tactegol

# Ble mae Jo?



01 Mai, 2016

Nos Fercher

Dw i ar drip ysgol a dw i'n cael amser ffantastig.

Dw i wedi bod ar drip ar yr afon. Dw i wedi bod i'r siopau smart a dw i wedi bod i fyny'r tŵr enwog. Dw i wedi bwyta bwyd blasus dros ben a dw i wedi cael llawer o hwyl gyda ffrindiau.

Heddiw, roedd hi'n bwrw glaw'n drwm ac felly aethon ni o dan y strydoedd. Ie - o dan y strydoedd! Aethon ni i lawr i'r sewers.

Roedd hi'n drewi ond roedd hi'n ddiddorol iawn. Cerddon ni yn y twneli tywyll - roedd modelau yno. Dysgon ni am y sewers. Gwelon ni ffilm am y sewers. Cerddon ni o gwmpas y sewers. Yna, aethon ni i'r siop.

Pan ddaethon ni allan, roedd hi'n bwrw glaw o hyd. Felly, dwedodd Madame Jones, "Beth am fynd i fwy o dwneli? Beth am fynd i'r catacombs?"

"Catacombs? Beth ydy catacombs" gofynnais i. "Dewch i weld," dwedodd Madame Jones.

Felly, aethon ni i'r metro (twnnel arall!) ac aethon ni i mewn i'r catacombs. Roedden nhw'n sbwci ond roedden nhw'n ddiddorol.

Gobeithio bydd hi'n braf yfory achos dw i ddim eisiau mynd i fwy o dwneli.



y sewers



y catacombs



y catacombs

## Geirfa

### Geirfa

dros ben	extremely
drewi	to stink
tywyll	dark
o hyd	still
gobeithio	I hope

### ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

tunnels  
models

# O, diar!



Mae Carwyn Claude ...

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Geirfa

### Geirfa

poen	pain
llygad, llygaid	eye, eyes
golau	light
braich	arm
coes	leg
wedi torri	have broken
cyfergyd	concussion
pen tost = cur pen	headache
seren, sêr	star, stars
Beth ddigwyddodd?	What happened?

damwain	accident
rhy galed	too hard
chwaraewr	player
cryf	strong
cŵn poeth	hot dogs
fel fi	like me

## Trawsgrif

Person	Script
CCC:	Helo, dw i'n "sâl". Mae'n grêt ... blodau ... ffrwythau ... cardiau ... grawnwin ... grawnwin ... grawnwin ... a CHWARAEON AR Y TELEDU! O, pwysy 'na?
CCC:	Aled ...? Helo ... Dw i ddim yn dda iawn. Tu allan? Cei, wrth gwrs. Dere i mewn.
Aled:	Sut wyt ti, Carwyn bach?
CCC:	O, dw i mewn poen.
Aled:	Mewn poen?
CCC:	Dw i mewn poen ofnadwy.
Aled:	O diar. Dwyti ddim yn edrych yn dda iawn.

- CCC: Diolch, Aled.
- Aled: Rwyd ti'n edrych yn sâl.
- CCC: Diolch, Aled.
- Aled: Rwyd ti'n edrych yn sâl iawn.
- CCC: Diolch yn **fawr** Aled.
- Aled: Dyma, ti – grawnwin.
- CCC: Diolch yn fawr.
- Aled: O, maen nhw'n edrych yn flasus.
- Aled: Gawn ni weld ...  
Bobl bach – llygad ddu.
- CCC: Aled!?!?! Mae'r golau yn fy llygaid i.
- Aled: O, mae'n ddrwg gen i.  
Llygad ddu iawn.
- CCC: Diolch, Aled.
- Aled: Rwyd ti'n edrych yn ofnadwy.
- CCC: Diolch, Aled.
- Aled: Beth am dy fraich di?
- CCC: Awtsh!!!!
- Aled: Beth sy'n bod?
- CCC: Dw i wedi torri fy mraich.
- Aled: Wedi ... torri ... dy ... fraich?
- CCC: Ydw, dw i wedi torri fy mraich.
- Aled: O, diar ... Wyt ti mewn poen?
- CCC: Ydw.

- Aled: O, diar!
- Aled: Beth am dy goes di?
- CCC: Awtsh!!!!
- Aled: Beth sy'n bod?
- CCC: Dw i wedi torri fy nghoes.
- Aled: Wedi ... torri ... dy ... goes?
- CCC: Ydw, dw i wedi torri fy nghoes.
- Aled: O, diar ... Wyt ti mewn poen?
- CCC: Ydw.
- Aled: O, diar!
- Aled: Beth am dy ben di?
- CCC: Awtsh!!!!
- Aled: Beth sy'n bod?
- CCC: *Concussion!*
- Aled: *Concussion?!* ... Cyfergyd?
- CCC: Ie, *concussion* ... cyfergyd. Mae pen tost 'da fi ... a dw i'n gweld sêr ... un ... dwy ... tair ... pedair ... pump ...
- Aled: Carwyn!
- CCC: Ie,
- Aled: Stopia!
- CCC: O, iawn.
- Aled: Beth ddigwyddodd, Carwyn?
- CCC: Rygbi!
- Aled: Rygbi, wrth gwrs! ... Damwain rygbi.
- Aled: Beth ddigwyddodd?

Damwain yn y sgrym?

CCC: Wel ... na ... dim cweit.

Aled: Cicio'r bêl yn rhy galed?

CCC: Wel ... na ... dim cweit.

Aled: Tacl galed?

CCC: Wel ... na ... dim cweit.

Aled: Syrthio ar y cae?

CCC: Wel ... na ... dim cweit.

Aled: Taclo chwaraewr mawr ar y tîm arall?

CCC: Wel ... na ... dim cweit.

Aled: Wel beth ddigwyddodd, Carwyn?

CCC: Roeddwn i mewn ciw.

Aled: Ciw – ciw ar y cae rygbi?

CCC: Ciw – ie, ciw wrth y fan cŵn poeth.

Roeddwn i eisiau byrger.

Aled: O?

CCC: Prynais i'r byrger ...

Aled: Ie ...?

CCC: Talais i am y byrger ...

Aled: Ie ...?

CCC: Bwytais i ddarn o'r byrger.

Aled: Ie ...?

CCC: Roedd e'n flasus iawn.

Aled: Ie ...?

CCC: Syrthiodd sôs coch ar y llawr ...

Aled: Ie ...?

CCC: Cerddais i ... a ... syrthiais i ar y sôs coch.

Aled: O, na!

CCC: Syrthiais i ... **i mewn** i'r ciw ...

Aled: O, diar!

CCC: A syrthiodd pawb i lawr y grisiau – fel dominos.

Aled: Pawb?

CCC: Pawb yn y ciw.

Aled: Sut mae'r bobl yn y ciw?

CCC: Fel fi!

Aled: Wps!

# Byw ddoe



Meddyliwch – rydych chi'n byw mewn tŷ o'r 1930au a ...:

- does dim toiled yn eich tŷ chi
- does dim teledu yn eich tŷ chi
- does dim cyfrifiadur yn eich tŷ chi
- does dim gwres canolog yn eich tŷ chi
- does dim oergell yn eich cegin chi
- does dim peiriant golchi dillad yn eich cegin chi
- does dim car gennych chi.

Dychmygwch hefyd:

- rhaid i chi ddefnyddio toiled yn yr ardd yn lle toiled yn y tŷ
- rhaid i chi ddefnyddio pot yn ystod y nos – yn lle toiled
- rhaid i chi ymolchi mewn bath tin o flaen y tân glo bob wythnos
- rhaid i chi wrando ar raglenni radio neu recordiau a dawsio o gwmpas y gegin – yn lle gwyliau'r teledu neu chwarae gemau cyfrifiadur
- rhaid i chi eistedd o flaen tân glo i gadw'n gynnes
- rhaid i chi wisgo dillad o'r 1930-1940au bob dydd
- rhaid i chi feicio neu gerdded – yn lle mynd mewn car.



Dyna sut mae Joanne Francis, o swydd Lincoln, Lloegr yn byw. Pam? Achos mae hi'n hoffi byw yn 1939.

Mae Joanne yn byw fel merch o'r 30au a'r 40au.

- Ar ddydd Llun, mae hi'n golchi dillad mewn twb.
- Ar ddydd Mawrth, mae hi'n smwddio.
- Ar ddydd Gwener, mae hi'n mynd i siopa am fwyd – yn y farchnad. Mae hi'n hoffi bwyd plaen fel sosej a thatws stwnsh, pastai a thatws stwnsh.
- Yn yr ardd, mae Anderson Shelter ac mae hi'n mynd yno weithiau yn y nos.

Ond mae hi'n defnyddio un peth modern – ffôn symudol.

Pa *ringtones* sy'n dangos bod tecst yn cyrraedd? Seiren *air raid!*

## Geirfa

### Geirfa

gwres canolog

central heating

oergell

fridge

peiriant golchi dillad

washing machine

rhaid i chi ...

you must ...

yn lle

instead (of)

tân glo

coal fire

cadw'n gynnes	to keep warm
swydd	county
smwddio	to iron
y farchnad	the market
tatws stwnsh	mashed potato
cyrraedd	to arrive
pastai	pie

# A dyma'r newyddion ...

Dyma eitem o newyddion – ond ydy'r stori'n wir? Darllenwch y newyddion ac yna ewch i **Tasg 1**.

## Braich mewn crocodeil

Roedd Karen Prior, 68 oed, yn eistedd wrth afon Three Mile Creek, Gorllewin Awstralia.

Yn sydyn, neidiodd crocodeil o'r dŵr a gafael yn ei braich.

Torrodd y crocodeil y fraich i ffwrdd. Rhedodd Karen o'r afon. Rhedodd hi i'r ffordd a daeth car i fyny'r ffordd. Stopiodd y car a dwedodd y gyrrwr, "Bry sia - i mewn i'r car! Rhaid mynd i'r ysbyty."

"Na, dw i'n gwaedu," dwedodd Karen.  
Bydd gwaed yn y car."

"Dim ots!" dwedodd y dyn. Aeth Karen i mewn i'r car a gyrrodd y dyn hi i'r ysbyty.

### Chwilio am y crocodeil

Yna, aeth pobl allan i chwilio am y crocodeil.

Ffeindion nhw fe. Lladdon nhw fe. Agoron nhw'r crocodeil. Beth oedd yn stumog y crocodeil? Braich a llaw Karen Prior.

Aethon nhw â'r fraich i'r ysbyty. Pwythodd y doctoriaid fraich a llaw Karen Prior 'nôl.



### Geirfa

#### Geirfa

braich

arm

gafael yn

to get hold of

torri i ffwrdd	to cut off
gwaedu	to bleed
gwaed	blood
Dim ots!	Nevermind!
chwilio am	to look for
llaw	hand
aethon nhw â'r	they took the
pwytho	to stitch

# Blwyddyn ddiddorol!



Mae Jordan yn cael gwaith cartref:

DYDDIADUR GWAITH CARTREF				
Dyddiad	Pwnc	Tasg	Erbyn	
4 Gorffennaf	Cymraeg	Ysgrifennwch am beth wnaethoch chi yn ystod y flwyddyn ysgol.	11	Gorffennaf

Dyma beth wnaeth Jordan yn ystod y flwyddyn ysgol:

**05 Gorffennaf, 2016**

**Blwyddyn ddiddorol!**

Dw i wedi eistedd tu allan i ystafell y Pennaeth am 20 awr eleni ...

Mis Medi:

Medi 3 – 'Nôl yn yr ysgol ar ôl y gwyliau – problem! Roedd fy ngwisg ysgol i'n rhy fach. Felly, gwisgais i jîns du, crys T gwyn a sbectol haul i'r ysgol. Gwelodd Miss Strangler fi'n cerdded i mewn i'r ysgol ac roedd hi'n flin. Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth.

## Mis Hydref:

Calan Gaeaf. Dydy Miss Evans Cymraeg ddim yn hoffi corynnod ond dw i'n hoffi corynnod! Prynais i multipack o gorynnod bach a mawr, brown a du. Rhoiais i nhw yn yr ystafell Gymraeg - ar y ddesg, o dan gadair Miss Evans, ar y silff yn y cwpwrdd, uwchben y bwrdd gwyn, wrth ochr y drws. Roedd Miss Evans yn flin. Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!



## Mis Rhagfyr:

Roedd coeden Nadolig dal iawn yn y neuadd ond roedd yr angel ar y top yn ddiflas iawn. Roedd hi'n wyn ac roedd hi'n edrych yn drist. Felly, argraffais i lun o'r Pennaeth, rhoi tw-tw pinc o gwmpas y llun a rhoi'r "angel" newydd ar dop y goeden. Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!




## Mis Ionawr:

Roedd mis ionawr yn grêt. Roedd hi'n bwrw eira. Felly, gwnaeth fy ffrindiau a fi gaseg eira enfawr. Rholion ni'r gaseg eira ar draws y fynedfa i'r maes parcio. Doedd yr athrawon ddim yn gallu gyrru allan. Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!

## Mis Chwefror:

Dydd Sant Ffolant! Anfonais i gerdyn Ffolant at Miss Evans, Cymraeg. Ysgrifennais i:



Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!

Mis Mawrth:

Dydd Gŵyl Dewi - gwych! Bwytais i saith cenhinen (fach) ar yr iard a chwydais i yn y wers technoleg.  
Roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth - a chwydais i yn ystafell y Pennaeth hefyd!

Mis Ebrill

Dydd Ffôl Ebrill - chwaraeais i jôcs ar bawb - ac roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!

Mis Mehefin

Diwrnod mabolgampau. Des i i'r ysgol ar *crutches*. Roedd fy mraich i mewn sling ac roedd plaster mawr ar fy nhrewyn i. Gwelodd Mr Williams, addysg gorfforol, fi ac roedd rhaid i fi fynd i weld y Pennaeth!



## Mis Gorffennaf

Dw i ddim wedi eistedd tu allan i ystafell y Pennaeth eto! Ond mae syniad gyda fi ...

## Geirfa

### Geirfa

awr

hour

eleni

this year

gwisg ysgol

school uniform

yn flin, yn ddig, yn grac

angry

Calan Gaeaf

Hallowe'en

corynnod = pryfed cop	spiders
diflas	miserable, dull
argraffu	to print
caseg eira	huge snowball
ar draws	across
mynedfa	entrance
cenhinien	leek
chwydu	to be sick, vomit
mabolgampau	sports
trwyn	nose
addysg gorfforol	physical education

# Y Parti



Darllenwch y llythyr yma oddi wrth Carla.

**Annwyl Ciwb,**

Roedd parti yn nhŷ Sophie nos Sadwrn. Roeddwn i'n edrych ymlaen at fynd achos roedd Josh (Blwyddyn 10) yn mynd i'r parti. Roedd Anna'n mynd i ddod efo fi ond ffoniodd hi cyn y parti - roedd hi'n sâl a doedd hi ddim yn dod. Roeddwn i'n siomedig ond roeddwn i eisiau mynd i'r parti. Dw i'n hoffi partïon!

Es i i'r parti am wyth o'r gloch. Roedd pawb o'r dosbarth yno ond roedden nhw mewn grwpiau ffrindiau. Roedd rhai'n dawnsio. Roedd rhai'n siarad. Roedd rhai'n bwyta, yn gwyllo'r dawnsio. Roeddwn i'n teimlo'n unig.

Es i allan i'r gegin i gael diod. Roedd Sophie, Josh ac Alice yno. "Haia," dwedais i. Atebon nhw ddim. Roedden nhw'n siarad ac yn chwerthin. Roeddwn i'n teimlo'n unig iawn.

Carla

## Geirfa

### Geirfa

edrych ymlaen at	to look forward to
cyn	before
siomedig	disappointed
partïon	parties
unig	lonely
chwerthin	to laugh

# Everest



Rydych chi'n mynd i wrando ar ddarn o'r rhaglen **Teithio**. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Geirfa

### Geirfa

Sir Benfro	Pembrokeshire
clirio	to clear
gadael	to leave
sbwriel	rubbish
hedfan	to fly
adeiladau	buildings
uwchlaw	above
pabell	tent
offer coginio	cooking equipment
tarten	tart

gorllewin	west
anodd	difficult
gwaelod	bottom, base
cyfeillgar	friendly

## Trawsgrif

Person	Sgript
<b>Cyflwynnydd:</b>	Croeso i raglen arall o <b>Teithio</b> . Heddiw yn y stiwdio, rydyn ni'n siarad â dyn o Sir Benfro – Iwan Jones. Croeso i'r stiwdio, Iwan.
<b>Iwan:</b>	Diolch.
<b>Cyflwynnydd:</b>	Rydych chi wedi bod ar daith arbennig. ... <b>Ble</b> aethoch chi?
<b>Iwan:</b>	Es i i fyny Everest.
<b>Cyflwynnydd:</b>	Bobl bach – i fyny Everest! ... <b>Pryd</b> aethoch chi?
<b>Iwan:</b>	Ym mis Hydref. ... Es i i fyny i Base Camp, Everest gyda grŵp o bobl i glirio'r mynydd.
<b>Cyflwynnydd:</b>	I glirio'r mynydd?
<b>Iwan:</b>	Ie – i glirio'r mynydd.
<b>Cyflwynnydd:</b>	Ond <b>pam</b> ?
<b>Iwan:</b>	Mae llawer o bobl yn dringo Everest bob blwyddyn ... ac mae rhai pobl yn gadael sbwriel yno.



**Person**      **Sgript**

**Cyflwynnydd:** Gadael sbwriel ... ar Fynydd Everest?!?!? ... > ? Mae hynny'n ofnadwy!

**Iwan:** Ydy.

**Cyflwynnydd:** Siaradwch am y daith, Iwan.

**Iwan:** Wel, hedfanais i o Gatwick i Kathmandu, yn Nepal.

**Cyflwynnydd:** O Gatwick ... i Kathmandu ...?

**Iwan:** Arhoson ni mewn gwesty yn Kathmandu am dair noson.

**Cyflwynnydd:** Waw – aros yn Kathmandu – am dair noson! ... Beth wnaethoch chi yn Kathmandu?

**Iwan:** Es i i weld yr hen adeiladau, y *Monkey Temple* ... ac es i i siopa. Mae Kathmandu yn lliwgar ac yn ddiddorol – mae'n ddiddorol iawn.

**Cyflwynnydd:** Beth brynoch chi?

**Iwan:** Prynais i grys T a *souvenirs* o Khatmandu.

**Cyflwynnydd:** Beth wedyn?

**Iwan:** Es i o Kathmandu i Lukla ar y bws ... ac yna cerddais i i fyny i Base Camp – dros bum mil metr uwchlwm lefel y môr. Roedd Sherpa yn cario fy rysac i ac roedd iacs yn cario'r babell a'r offer coginio.

**Cyflwynnydd:** Coginio? Beth fwytoch chi ar y mynydd?

- Iwan:** Tatws ... a sglodion ... bwyd India – cyrris ... tarten afal ... llawer o fwyd y gorllewin a bod yn onest.
- Cyflwynnydd:** Beth yfoch chi?
- Iwan:** Te ... llawer o de ... a dŵr a siocled poeth.
- Cyflwynnydd:** Ble gysgoch chi?
- Iwan:** Ar y mynydd. Cysgais i mewn pabell. Roedd hi'n oer iawn yn y nos ... tua minws dau ddeg gradd Celsius ... Roedd cysgu'n anodd achos roedd hi'n oer iawn.
- Cyflwynnydd:** Siaradwch am glirio'r sbwriel ar y mynydd, Iwan.
- Iwan:** Roeddwn i'n gwisgo menig ac roeddwn i'n rhoi'r sbwriel mewn bagiau plastig.
- Cyflwynnydd:** Sut oeddech chi'n teimlo?
- Iwan:** Roeddwn i'n hapus iawn ... Roedd y mynyddoedd yn hardd – yn hardd iawn! ... Roedd y lliwiau'n wych ... roedd y mynyddoedd yn **wyn** ar y top ... ond yn **wyrdd** iawn ar y gwaelod ... ac roedd yr awyr yn **las** iawn. Anhygoel!
- Cyflwynnydd:** Beth am y bobl?
- Iwan:** Hyfryd. Roedd pobl Nepal yn gyfeillgar iawn ... ac roedd y criw clirio sbwriel yn hyfryd hefyd.
- Cyflwynnydd:** Hoffech chi fynd 'nôl?
- Iwan:** Hoffwn – heb os nac oni bai!